



Gofal Cymdeithasol **Cymru**  
Social Care **Wales**

Y fframwaith ar gyfer  
y radd mewn gwaith  
cymdeithasol yng  
Nghymru



## Cynnwys

Cyflwyniad.....3

Rheolau Cymeradwyo ac Arolygu Cyrsiau  
Gradd Gwaith Cymdeithasol (Cymru) 2018.....4

Part I  
Cyffredinol.....5

Rhan II  
Cymeradwyo rhaglenni gradd gwaith  
cymdeithasol.....7

Rhan III  
Monitro a sicrhau ansawdd.....12

Rhan IV  
Adolygu penderfyniadau.....17

Yr Atodlen  
Meini Prawf ar gyfer Cymeradwyo a  
Sicrhau Ansawdd Rhaglenni Gradd Gwaith  
Cymdeithasol.....18

Cyfeirnodau.....23

## Cyflwyniad

Sefydlwyd Gofal Cymdeithasol Cymru dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 er mwyn hybu dull integredig o reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol, datblygu gweithlu a gwella gwasanaethau drwy gyfrwng un sefydliad.

Ein nod yw gwella ansawdd gofal a chymorth cymdeithasol i bobl Cymru. Mae gennym rôl arbennig i'w chwarae wrth ddatblygu'r gweithlu ac rydym yn gyfrifol am sicrhau safon addysg gwaith cymdeithasol.

Mae gan weithwyr cymdeithasol yng Nghymru rôl ganolog i'w chwarae er mwyn sicrhau bod anghenion gofal a chymorth cymdeithasol pobl yn cael eu deall a'u diwallu mewn ffordd sy'n hybu eu llesiant a'u diogelwch. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cydnabod bod staff a'u sgiliau yn adnodd hanfodol, ac yn aml iawn, dyma'r adnodd gorau y gallwn ei gynnig i bobl.

O ganlyniad, mae hyfforddiant proffesiynol gweithwyr cymdeithasol yn elfen allweddol wrth baratoi gweithwyr cymdeithasol proffesiynol, cymwys a hyderus.

Rydym yn cefnogi hyn drwy:

- Ddatblygu'r gweithlu: Rydym yn cefnogi'r gweithlu er mwyn iddynt allu gweithio mewn ffyrdd sy'n gydweithredol, yn effeithiol ac wedi'u seilio ar werthoedd gofal cymdeithasol, gan fod yn agored i ddulliau newydd o weithio

- Arwain a chefnogi gwelliant: Rydym yn defnyddio gwybodaeth o ddata, ymchwil a gwerthusiadau, yn ogystal ag arolygiadau a pholisi, i gefnogi'n gwaith a helpu'r sector i archwilio a deall y modelau, dulliau ymarfer a'r sgiliau gweithlu sydd eu hangen er mwyn darparu cefnogaeth fwy effeithiol

- Rhoi sicrwydd i'r cyhoedd: Rydym yn rheoleiddio'r gweithlu er mwyn sicrhau'r cyhoedd bod y gweithwyr hynny sy'n cael eu

rheoleiddio o gymeriad da, yn hyderus ac yn gymwys i ddarparu gofal diogel i bobl Cymru a chymorth i'w teuluoedd

Drwy sefydlu gofynion clir ar gyfer addysg a hyfforddiant proffesiynol, rydym yn sicrhau bod gan y genhedlaeth nesaf o weithwyr cymdeithasol y wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd sydd eu hangen er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Y radd gwaith cymdeithasol yw'r cymhwyster proffesiynol i weithwyr cymdeithasol yng Nghymru ac ym mhob rhan arall o'r Deyrnas Unedig. Mae'r teitl yn cael ei ddiogelu, a dim ond pobl sydd â chymhwyster gwaith cymdeithasol sydd â'r hawl i ymarfer fel gweithwyr cymdeithasol. Ar ôl iddynt gymhwyso, rhaid i weithwyr cymdeithasol ddal i ddatblygu eu hymarfer drwy ddysgu a datblygu parhaus.

Rydym wedi sefydlu'r safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant gweithwyr cymdeithasol ar lefelau cymhwyso ac ôl-gymhwyso.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r safonau ar gyfer y cymhwyster proffesiynol ac yn cynnwys:

- y rheolau sy'n ymwneud â chymeradwyo a rheoleiddio'r rhaglen gymhwyso gwaith cymdeithasol
- rhestr yn gosod allan gofynion mwy manwl ar gyfer cymeradwyo rhaglenni.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi dogfen ar wahân sy'n cynnwys canllawiau ychwanegol i'r rheolau, dehongliad o'r rheolau a fframwaith ar gyfer asesu myfyrwyr, yn ogystal â dogfen fanylach ar wahân sy'n disgrifio'r broses ar gyfer addysg myfyrwyr.

Mae dogfen ar wahân arall ar y gofynion ar gyfer hyfforddiant ôl-gymhwyso gweithwyr cymdeithasol ar gael hefyd.

### Manylion cyswllt

Gofal Cymdeithasol Cymru  
South Gate House  
Wood Street  
Caerdydd  
CF10 1EW  
Ffôn: 0300 3033 444  
Minicom: 029 2078 0680  
E-bost: gwybodaeth@gofal  
cymdeithasol.cymru

Twitter: @GofCymdeithasol  
© 2019 Gofal Cymdeithasol  
Cymru  
ISBN: 978-1-911463-86-3

Cedwir pob hawl. Ni ellir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ei storio mewn system adalw neu ei drosglwyddo mewn unrhyw ffurf neu drwy unrhyw fodd heb ganiatâd ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw. Dylid anfon ymholiadau am atgynhyrchu y tu allan i'r cwmpas a ganiateir yn benodol gan y gyfraith at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddir uchod.

### Fformatau eraill:

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. Mae copïau o'r ddogfen ar gael mewn print bras neu fformatau eraill, os oes angen.

# RHEOLAU CYMERADWYO AC AROLYGU CYRSIAU GRADD GWAITH CYMDEITHASOL (CYMRU) 2018

## Trefniant y Rheolau

### RHAN I CYFFREDINOL

1. Enwi a chychwyn
2. Dehongliad

### RHAN II CYMERADWYO RHAGLENNI GRADD GWAITH CYMDEITHASOL

3. Ceisiadau am gymeradwyaeth
4. Ystyried ceisiadau
5. Gofynion cymeradwyo
6. Y safon hyfedredd ofynnol mewn gwaith cymdeithasol perthnasol
7. Hyd cymeradwyaethau a'u tynnu'n ôl
8. Diwygiadau i raglenni gradd

### RHAN III MONITRO A SICRHAU ANSAWDD

9. Darparu gwybodaeth
10. Adolygiadau
11. Arolygwyr
12. Ymchwiliadau â ffocws
13. Arolygiadau wedi'u cyfarwyddo gan y Pwyllgor Arolygu

### RHAN IV ADOLYGU PENDERFYNIADAU

14. Adolygu penderfyniadau

## YR ATODLEN

Meini Prawf ar gyfer Cymeradwyo a Sicrhau Ansawdd Rhaglenni Gradd Gwaith Cymdeithasol.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru, wrth arfer y pwerau a roddwyd iddo gan Adrannau 74(1)(a) a (2)(c), 114 (1)(a), (3), (6), 115 (1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, a'r holl bwerau eraill sy'n galluogi Gofal Cymdeithasol Cymru yn hynny o beth, ac â chydysniad Gweinidogion yn gwneud y Rheolau canlynol:

## RHAN I Cyffredinol

### 1. Enwi a chychwyn

Enw'r Rheolau hyn yw Rheolau Cymeradwyo ac Arolygu Cyrsiau Gradd Gwaith Cymdeithasol (Cymru) 2018 a byddant yn dod i rym ar 1 Ebrill 2019.

### 2. Dehongliad

(1) Yn y Rheolau hyn –

ystyr "y Ddeddf" yw Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;

ystyr "y Fframwaith Asesu ar gyfer Hyfforddiant Gwaith Cymdeithasol yng Nghymru" yw'r fframwaith sydd wedi'i gyflwyno yn Atodiad 1;

dehonglir "lefel asesu" drwy gyfeirio at y Fframwaith Asesu ar gyfer Hyfforddiant Gwaith Cymdeithasol yng Nghymru;

ystyr "cais", at ddibenion Rheol 4, yw'r cais a wneir dan Reol 3 ac, at ddibenion Rheol 8, y cais a wneir dan Reol 8(2), a dehonglir "ymgeisydd" yn gyfatebol;

ystyr "rhaglen radd gymeradwy" yw rhaglen radd sydd wedi'i chymeradwyo dan y Rheolau hyn;

ystyr "Datganiad Meincnodi ar gyfer Gwaith Cymdeithasol" yw'r Datganiad Meincnodi Pwnc a gynhwysir yn y ddogfen a gyhoeddwyd gan yr ASA (QAA) yn 2016 dan y teitl "Social Work";

ystyr "Gofal Cymdeithasol Cymru" yw'r corff corfforaethol a arferai gael ei adnabod fel Cyngor Gofal Cymru, a ail-enwyd yn 'Gofal Cymdeithasol Cymru' gan Adran 67(3) o'r Ddeddf;

ystyr "rhaglen radd" yw cwrs mewn gwaith cymdeithasol perthnasol ar gyfer unigolion sy'n dymuno bod yn weithwyr cymdeithasol;

ystyr "uwch swyddog dynodedig" yw uwch aelod o staff Gofal Cymdeithasol Cymru sydd wedi cael ei awdurdodi ganddo i weithredu fel uwch swyddog dynodedig dan y Rheolau hyn;

ystyr "swyddog awdurdodedig priodol" yw swyddog o staff Gofal Cymdeithasol Cymru sydd

wedi cael ei awdurdodi ganddo i weithredu fel swyddog awdurdodedig priodol dan y Rheolau hyn;

dehonglir "arholwr allanol" yn unol â pharagraff 7(2)(c) o'r Atodlen;

ystyr "ymchwiliad â ffocws" yw ymchwiliad dan Reol 11;

ystyr "Pwyllgor Arolygu" yw Pwyllgor Gofal Cymdeithasol Cymru sydd wedi cael ei awdurdodi ganddo i weithredu fel Pwyllgor Arolygu dan Reol 13;

ystyr "sefydliad", mewn perthynas â rhaglen radd (boed yn rhaglen radd gymeradwy ai peidio), yw'r sefydliad sydd wedi gwneud cais am ei chymeradwyo dan y Rheolau hyn, neu sefydliad sydd wedi etifeddu cyfrifoldeb am raglen radd gymeradwy gan sefydliad arall;

ystyr "Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol" yw'r Safonau Galwedigaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol fel y cânt eu diwygio o dro i dro a'u cyhoeddi gan Ofal Cymdeithasol Cymru;

ystyr "cytundeb partneriaeth" yw cytundeb o'r fath y cyfeirir ato ym mharagraff 1(1)(a) o'r Atodlen;

ystyr "panel asesu ymarfer" yw panel a lunnir yn unol â pharagraff 6(1)(f) o'r Atodlen;

ystyr "addysgwyr ymarfer" yw person y cyfeirir ato ym mharagraff 6(1)(j) o'r Atodlen;

dehonglir "dysgu ymarfer" yn unol â Rheol 6(2)(j);

ystyr "manyleb y rhaglen" yw'r fanyleb y cyfeirir ati ym mharagraff 5(1) o'r Atodlen;

ystyr "ASA" (QAA) yw'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch;

dehonglir "sicrhau ansawdd" yn unol â pharagraff 7(1)(a) o'r Atodlen;

ystyr "cofrestr" yw'r gofrestr a gedwir gan Ofal Cymdeithasol Cymru dan Adran 80 o'r Ddeddf, a dehonglir "cofrestru" a "cofrestredig" yn gyfatebol;

ystyr "safon hyfedredd ofynnol mewn gwaith cymdeithasol perthnasol" yw'r safon a ddisgrifir yn Rheol 6<sup>1</sup>;

ystyr “Pwyllgor Adolygu” yw pwyllgor Gofal Cymdeithasol Cymru sydd wedi cael ei awdurdodi ganddo i weithredu fel Pwyllgor Adolygu dan Reol 14;

dehonglir “llwybrau”, mewn perthynas â rhaglen radd, yn unol â Rheol 4(7);

ystyr “myfyriwr”, mewn perthynas â rhaglen radd, yw myfyriwr sydd wedi cofrestru ar y rhaglen neu a all fod yn cofrestru ar y rhaglen (yn ôl y cyd-destun);

ystyr “trawsgriafiad myfyriwr” yw’r un a roddir ym mharagraff 5(2)(n) o’r Atodlen;

dehonglir “arolygydd” yn unol â Rheol 11.

**(2)** Yn y Rheolau hyn –

(a) mae cyfeiriad at Reol â rhif iddi, yn gyfeiriad at y Rheol yn dwyn y rhif hwnnw yn y Rheolau hyn;

(b) mae cyfeiriad at baragraff â rhif iddo mewn Rheol neu yn yr Atodlen, yn gyfeiriad at y paragraff sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Rheol honno neu yn yr Atodlen;

(c) mae cyfeiriad at is-baragraff â rhif iddo mewn paragraff, yn gyfeiriad at yr is-baragraff sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y paragraff hwnnw; a

(d) mae cyfeiriad at yr Atodlen, yn gyfeiriad at yr Atodlen i’r Rheolau hyn.

## RHAN II

### Cymeradwyo rhaglenni gradd gwaith cymdeithasol

#### 3. Ceisiadau am gymeradwyaeth

**(1)** Wrth wneud cais i Ofal Cymdeithasol Cymru dan Adran 114(1) o’r Ddeddf ar gyfer cymeradwyo rhaglen radd mewn gwaith cymdeithasol –

(a) rhaid i’r cais fod yn ysgrifenedig ar ffurflen sydd wedi’i chymeradwyo gan Ofal Cymdeithasol Cymru;

(b) rhaid i’r cais gynnwys manyleb ar gyfer y rhaglen, copi o gytundeb neu gytundebau partneriaeth y sefydliad ac unrhyw wybodaeth arall y gofynnir amdani ar y ffurflen;

(c) rhaid cynnwys ffi o swm rhesymol fel sy’n ofynnol gan Ofal Cymdeithasol Cymru; a

(d) rhaid i’r cais gael ei wneud gan fath o sefydliad y cyfeirir ato yn Adran 214 (2) (a) neu (b) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988<sup>2</sup>.

#### 4. Ystyried ceisiadau

**(1)** Bydd cais a wneir yn briodol dan Reol 3 ar gyfer cymeradwyo rhaglen radd yn cael ei ystyried gan swyddog awdurdodedig priodol Gofal Cymdeithasol Cymru. Ni fydd cais nad yw’n cael ei wneud yn briodol yn cael ei ystyried.

**(2)** Rhaid i swyddog awdurdodedig priodol Gofal Cymdeithasol Cymru –

(a) os yw’n ystyried –

(i) bod gofynion Rheol 5 wedi cael eu bodloni neu (fel y bo’n briodol) y byddant yn cael eu bodloni;

(ii) y bydd y rhaglen yn galluogi unigolion sy’n ei chwblhau i gyrraedd y safon hyfedredd ofynnol mewn gwaith cymdeithasol perthnasol (Rheol 6);

(iii) y bydd y sefydliad yn gallu cydymffurfio â’r gofynion dan Reol 9; ond

(iv) nad oes angen cymeradwyo’r rhaglen gydag amodau;

argymell i Ofal Cymdeithasol Cymru bod y rhaglen yn cael ei chymeradwyo a hysbysu’r ymgeisydd ynglŷn â hynny yn ysgrifenedig.

(b) os yw’n ystyried –

(i) bod gofynion Rheol 5 wedi cael eu bodloni neu (fel y bo’n briodol) y byddant yn cael eu bodloni;

(ii) y bydd y rhaglen yn galluogi unigolion sy’n ei chwblhau i gyrraedd y safon hyfedredd ofynnol mewn gwaith cymdeithasol perthnasol (Rheol 6);

(iii) y bydd y sefydliad yn gallu cydymffurfio â’r gofynion dan Reol 9; ond

(iv) y dylid rhoi cymeradwyaeth gydag amodau;

hysbysu’r ymgeisydd o’r amodau arfaethedig.

(c) yn dilyn hysbysu’r ymgeisydd dan baragraff (2)(b) ac ar ôl i’r ymgeisydd dderbyn yr amodau arfaethedig yn ysgrifenedig, argymell i Ofal Cymdeithasol Cymru bod y rhaglen yn cael ei chymeradwyo gyda’r amodau hynny a hysbysu’r ymgeisydd ynglŷn â hynny yn ysgrifenedig;

(d) cyfeirio’r cais at uwch swyddog dynodedig –

(i) os yw ef neu hi yn credu nad yw gofynion Rheol 5 wedi’u bodloni neu na fyddant yn cael eu bodloni (fel y bo’n briodol) neu na fydd y rhaglen yn galluogi’r unigolion sy’n ei chwblhau i gyrraedd y safon hyfedredd ofynnol mewn gwaith cymdeithasol perthnasol (Rheol 6) neu os na fydd y sefydliad yn gallu cydymffurfio â’r gofynion dan Reol 9; neu

(ii) os nad yw’r ymgeisydd, yn dilyn ei hysbysu dan baragraff 2(b), wedi derbyn yr amodau arfaethedig yn ysgrifenedig o fewn 15 diwrnod gwaith o gael yr hysbysiad hwnnw.

**(3)** Pan fydd cais wedi’i gyfeirio dan baragraff (2)(d) –

(a) os yw’r uwch swyddog dynodedig yn credu y bydd gofynion Rheol 5 yn cael eu bodloni, neu y byddant yn cael eu bodloni (fel y bo’n briodol), os bydd y rhaglen yn galluogi’r unigolion sy’n ei chwblhau i gyrraedd y safon hyfedredd ofynnol mewn gwaith cymdeithasol perthnasol (Rheol 6) ac os bydd y sefydliad yn gallu cydymffurfio â’r gofynion dan Reol 9, rhaid iddo ef neu hi argymell i

Ofal Cymdeithasol Cymru bod y rhaglen yn cael ei chymeradwyo (gydag amodau neu hebddynt, fel y tybia sy'n briodol);

(b) os yw'r uwch swyddog dynodedig yn credu nad yw gofynion Rheol 5 wedi'u bodloni neu na fyddant yn cael eu bodloni (fel y bo'n briodol), neu na fydd y rhaglen yn galluogi'r unigolion sy'n ei chwblhau i gyrraedd y safon honno (Rheol 6) neu os na fydd y sefydliad yn gallu cydymffurfio â'r gofynion dan Reol 9, rhaid iddo ef neu hi argymhell i Ofal Cymdeithasol Cymru ei fod yn gwrthod cymeradwyo'r rhaglen;

(c) rhoi gwybod i'r ymgeisydd yn ysgrifenedig am yr argymhelliad ar y cais; a

(d) pan mai argymhelliad yr uwch swyddog dynodedig yw gwrthod â chymeradwyo'r rhaglen neu ei chymeradwyo ag amodau nas cytunwyd arnynt yn ysgrifenedig rhwng yr ymgeisydd a Gofal Cymdeithasol Cymru, rhaid iddo ef neu hi roi ei resymau yn yr hysbysiad hwnnw a rhoi gwybod i'r sefydliad am ei hawl i adolygiad dan Reol 14.

**(4)** Bydd penderfyniad o'r fath y cyfeirir ato ym mharagraff (3)(d) –

(a) yn dod i rym 28 diwrnod ar ôl y diwrnod yr hysbyswyd yr ymgeisydd am y cyfryw benderfyniad os nad yw'r ymgeisydd, yn ystod y cyfnod hwnnw, wedi cyfeirio'r penderfyniad yn ysgrifenedig at y Pwyllgor Adolygu i'w ystyried dan Reol 14; ond

(b) ni fydd yn dod i rym os yw'r ymgeisydd yn cyfeirio'r penderfyniad yn y fath fodd; a bydd unrhyw benderfyniad arall dan baragraff (3) yn dod i rym cyn gynted ag y gwneir y cyfryw benderfyniad.

**(5)** Gall swyddog awdurdodedig priodol Gofal Cymdeithasol Cymru ofyn unrhyw bryd i'r ymgeisydd ddarparu unrhyw wybodaeth arall y mae'n rhesymol iddo ofyn amdani at ddibenion ystyried cais.

**(6)** Bydd unrhyw gymeradwyaeth a roddir dan y Rheolau hyn yn dod i rym ar y diwrnod a bennir yn yr hysbysiad o'r gymeradwyaeth a roddir dan baragraff (2) neu (3) neu Reol 14 (adolygu penderfyniadau).

**(7)** Os bydd mwy nag un ffordd o gwblhau rhaglen radd ar gyfer myfyrwyr (y cyfeirir atynt yn y Rheolau hyn fel "llwybrau"):

(a) mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheolau hyn at Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru neu'r Pwyllgor Adolygu sy'n ystyried –

(i) a yw gofynion Rheol 5 wedi cael eu bodloni neu a fyddant yn cael eu bodloni (fel y bo'n briodol), yn gyfeiriad at ystyried a yw'r gofynion wedi cael eu bodloni neu a fyddant yn cael eu bodloni (fel y bo'n briodol) mewn perthynas â phob un o'r llwybrau hynny;

(ii) a fydd y rhaglen radd yn galluogi person i gyrraedd y safon hyfedredd ofynnol mewn gwaith cymdeithasol perthnasol (Rheol 6), yn gyfeiriad at ystyried a fydd pob un o'r llwybrau hyn yn galluogi'r cyfryw berson i gyrraedd y safon honno ai peidio;

(iii) a fydd y sefydliad yn gallu cydymffurfio â'r gofynion dan Reol 9 ai peidio, yn gyfeiriad at ystyried a fydd y sefydliad yn gallu cydymffurfio â'r gofynion hynny ai peidio mewn perthynas â phob un o'r llwybrau hynny;

(b) bydd unrhyw gymeradwyaeth a roddir dan y Rheolau hyn yn berthnasol i'r cyfryw llwybrau (os oedd rhai) y manylwyd arnynt yn y cais yn unig.

## 5. Gofynion cymeradwyo

**(1)** Gofynion y Rheol hon yw:

(a) y bydd cwblhau'r rhaglen radd yn llwyddiannus gan fyfyrwr yn arwain at naill ai:

(i) roi dyfarniad sy'n rhoi hawl teitl baglor i'r deilydd ar yr amod bod y dyfarniad hwnnw hefyd (yn unol â'r offerynnau sy'n ymwneud â'r ymgeisydd neu sy'n rheoleiddio'r ymgeisydd) ar ffurf gradd anrhydedd;

(ii) rhoi dyfarniad sy'n rhoi hawl teitl meistri i'r deilydd; neu

(iii) rhoi Diploma Ôl-radd; a

(b) bod y rhaglen radd a'r sefydliad yn bodloni'r meini prawf a bennir yn yr Atodlen i'r Rheolau hyn, neu y byddant (fel y bo'n briodol) yn eu bodloni.

## 6. Y safon hyfedredd ofynnol mewn gwaith cymdeithasol perthnasol

**(1)** At ddiben Adran 63(5) o'r Ddeddf, y "safon hyfedredd ofynnol mewn gwaith cymdeithasol perthnasol"<sup>3</sup> yw'r safon a ddisgrifir ym mharagraff (2).

**(2)** Rhaid i fyfyrwr sy'n cwblhau'r rhaglen radd (boed yn bwriadu gweithio fel gweithiwr cymdeithasol ai peidio) ddangos erbyn yr asesiad terfynol:

(a) ei fod wedi dangos, gydol y rhaglen radd, ei fod wedi cydymffurfio â'r Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol a gyhoeddwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru dan Adran 112 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;

(b) ei fod wedi bodloni'r Datganiadau Meincnodi ar gyfer Gwaith Cymdeithasol a'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol;

(c) ei fod wedi cwblhau pob elfen o waith asesedig yn llwyddiannus ac wedi mynd drwy'r rhaglen radd yn unol â'r Fframwaith Asesu a gyhoeddwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru;

(d) y byddai'n gallu integreiddio deddfwriaeth Cymru, y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd (gan gynnwys Deddf Hawliau Dynol 1998), gwybodaeth a thystiolaeth ymchwil ynglŷn ag ymarfer gorau a theori, sy'n gysylltiedig â gwaith cymdeithasol, i'w ymarfer fel gweithiwr cymdeithasol;

(e) y byddai'n gallu integreiddio'r gofynion dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg 2011 i'w ymarfer fel gweithiwr cymdeithasol;

(f) y byddai'n deall pa mor ddymunol yw asesu pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt, yn eu dewis iaith, ac y byddai'n hyrwyddo hynny yn ei ymarfer fel gweithiwr cymdeithasol;

(g) yn amodol ar unrhyw gredyd a roddwyd i'r myfyrwr yn unol ag unrhyw drefniadau ar gyfer achredu profiad a dysgu blaenorol, ei fod wedi ymgymryd ag oddeutu 1,200 awr o ddysgu academiaidd, a bod y cyfryw ddysgu wedi cael ei gyfarwyddo, ei strwythuro a'i asesu'n briodol;

(h) yn amodol ar unrhyw gredyd a roddwyd i'r myfyrwr yn unol ag unrhyw drefniadau ar gyfer achredu profiad a dysgu blaenorol, ei fod wedi cwblhau'n llwyddiannus o leiaf 200 diwrnod o hyfforddiant ymarferol asesedig mewn gwaith cymdeithasol ("dysgu ymarfer") a oedd yn cynnwys;

(i) o leiaf ddau gyfnod ar wahân o ddysgu ymarfer;

(j) bod un o'r cyfnodau dysgu ymarfer hyn yn cynnwys gwaith cymdeithasol gyda grŵp gwahanol o ddefnyddwyr gwasanaeth i'r un a oedd yn y llall;

(k) bod o leiaf un cyfle dysgu ymarfer o'r fath, o ddim llai nag 80 diwrnod, mewn adran gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol, a'i fod yn cynnwys profiad o swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol statudol, gan gynnwys diogelu;

(l) bod y myfyrwr wedi dangos yn ystod y 200 niwrnod:

(i) ei fod yn deall y rôl broffesiynol mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion;

(ii) bod ganddo'r sgiliau i gyfrannu'n briodol at ymyriadau diogelu;

(m) bod o leiaf un cyfnod o'r fath yn cynnwys profiad o weithio gyda phroffesiynau eraill wrth gyflwyno gwasanaeth cymdeithasol;

(n) pan fo myfyrwr hefyd yn cael ei gyflogi fel gweithiwr gofal cymdeithasol tra mae'n dilyn y rhaglen radd, rhaid i o leiaf un o'r cyfnodau hyn fod mewn lleoliad sy'n dra gwahanol i'r lleoliad y'i cyflogir ynddo.

## 7. Hyd cymeradwyaethau a'u tynnu'n ôl

**(1)** Bydd y Gymeradwyaeth a roddir i raglen radd dan y Rheolau hyn yn colli ei grym –

(a) os caiff ei thynnu'n ôl dan Reol 13 neu 14;

(b) os bydd y sefydliad yn cyflwyno cais ysgrifenedig i Ofal Cymdeithasol Cymru i dynnu'r gymeradwyaeth yn ôl a bod Gofal Cymdeithasol Cymru yn cytuno i'r cais hwnnw; neu

(2) Bydd y Gymeradwyaeth a roddir i raglen radd dan y Rheolau hyn yn colli ei grym os nad oes unrhyw fyfyrwr, yn ystod unrhyw gyfnod o 12 mis, wedi cofrestru ar y rhaglen, heblaw am y myfyrwr hynny sydd eisoes wedi cofrestru ar y rhaglen. Bydd cymeradwyaeth yn parhau ar gyfer y myfyrwr hynny ar yr amod nad yw Rheol 7.1(a) yn berthnasol.

## 8. Diwygiadau i raglenni gradd

(1) Ni chaiff sefydliad wneud unrhyw rai o'r diwygiadau canlynol i raglen radd heb ganiatâd Gofal Cymdeithasol Cymru –

(a) newid manyleb y rhaglen neu unrhyw gytundeb partneriaeth, naill ai yn eu ffurfiau gwreiddiol ar ddyddiad cymeradwyo'r rhaglen neu fel y'u newidiwyd ar ôl hynny dan y Rheol hon;

(b) gostyngiad o bwys yng nghymhareb adnoddau'r rhaglen (gan gynnwys staff addysgu gweithwyr cymdeithasol cofrestredig) i nifer y myfyrwr sy'n ymgymryd â'r rhaglen (neu unrhyw un o lwybrau'r rhaglen), fel y safai'r gymhareb honno ar ddyddiad cymeradwyo'r rhaglen neu fel y saif ar ôl cael ei diwygio wedi hynny dan y Rheol hon;

(c) amrywiad yn nifer y myfyrwr y cynlluniwyd y rhaglen (neu unrhyw un o lwybrau'r rhaglen) ar eu cyfer, fel y safai'r cynllun hwnnw ar ddyddiad cymeradwyo'r rhaglen neu fel y saif ar ôl cael ei ddiwygio wedi hynny dan y Rheol hon.

(2) Rhaid i'r sefydliad wneud cais am ganiatâd dan y Rheol hon yn ysgrifenedig ar ffurflen a gymeradwywyd at y diben gan Ofal Cymdeithasol Cymru, a chynnwys unrhyw wybodaeth y gellir gofyn amdani.

(3) Bydd cais a wneir yn briodol dan baragraff (2) yn cael ei ystyried gan swyddog awdurdodedig priodol Gofal Cymdeithasol Cymru. Ni fydd cais nad yw wedi cael ei wneud yn briodol yn cael ei ystyried.

(4) Rhaid i swyddog awdurdodedig priodol Gofal Cymdeithasol Cymru –

(a) pan fydd o'r farn na fydd y diwygiad arfaethedig yn codi amheuon ynghylch gallu'r rhaglen i barhau i fodloni gofynion Rheol 5 neu i barhau i alluogi unigolion sy'n ei chwblhau i ennill y safon hyfedredd ofynnol mewn gwaith cymdeithasol perthnasol, roi

caniatâd i'r diwygiad a hysbysu'r ymgeisydd o hynny yn ysgrifenedig;

(b) pan fydd o'r farn, os bydd diwygiad arfaethedig yn cael ei weithredu ar ffurf sydd wedi'i newid, na fydd yn codi amheuon ynghylch y materion y cyfeirir atynt yn is-baragraff (a), hysbysu'r ymgeisydd o'r newid arfaethedig ac, os yw'r ymgeisydd yn cytuno yn ysgrifenedig i'r newid arfaethedig, roi caniatâd i'r diwygiad arfaethedig fel y'i newidiwyd a hysbysu'r ymgeisydd ynglŷn â hynny yn ysgrifenedig;

(c) cyfeirio'r cais at uwch swyddog dynodedig –

(i) mewn achos nad yw'n dod o dan is-baragraff (b), lle mae'n credu y bydd y diwygiad arfaethedig yn codi amheuon ynghylch y materion y cyfeirir atynt yn is-baragraff (a); neu

(ii) lle nad yw'r ymgeisydd wedi cytuno i newid arfaethedig dan is-baragraff (b).

(5) Pan wneir cyfeiriad dan baragraff 4(c), rhaid i'r uwch swyddog dynodedig wneud un o'r penderfyniadau canlynol fel y tybia y bo'n briodol –

(a) gwrthod caniatâu'r diwygiad arfaethedig;

(b) rhoi caniatâd heb ofyn i'r diwygiad arfaethedig gael ei weithredu ar ffurf sydd wedi'i newid neu heb i'r ymgeisydd orfod llunio cynllun gweithredu;

(c) rhoi caniatâd ond ei gwneud yn ofynnol i'r diwygiad arfaethedig gael ei weithredu ar ffurf sydd wedi'i newid;

(d) rhoi caniatâd ond ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd lunio cynllun gweithredu, a'i roi ar waith, gyda'r bwriad o sicrhau nad yw gweithrediad y diwygiad yn bwrw amheuaeth ar y materion y cyfeirir atynt ym mharagraff (4)(a);

(e) rhoi caniatâd ond ei gwneud yn ofynnol i'r diwygiad arfaethedig gael ei newid fel y disgrifir yn is-baragraff (c) a'i gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd lunio cynllun gweithredu a'i roi ar waith fel y disgrifir yn is-baragraff (d).

(6) Rhaid i'r uwch swyddog dynodedig –

(a) roi gwybod i'r ymgeisydd yn ysgrifenedig am ei benderfyniad; a

(b) lle mae wedi gwrthod caniatâu'r diwygiad arfaethedig, wedi'i gwneud yn ofynnol i'r diwygiad gael ei weithredu ar ffurf sydd wedi'i newid nas cytunwyd arni'n ysgrifenedig gyda'r ymgeisydd neu wedi'i gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd lunio cynllun gweithredu –

(i) roi ei resymau yn yr hysbysiad hwnnw; a

(ii) rhoi gwybod i'r ymgeisydd am yr hawl i gael adolygiad dan baragraff (8).

(7) Gall swyddog awdurdodedig priodol Gofal Cymdeithasol Cymru ofyn i'r ymgeisydd ddarparu unrhyw wybodaeth arall y mae'n rhesymol y gallai Gofal Cymdeithasol Cymru fod ei hangen ar unrhyw adeg at ddibenion ystyried cais.

(8) Bydd penderfyniad o'r fath y cyfeirir ato ym mharagraff (6)(b) –

(a) yn dod i rym 28 diwrnod ar ôl y diwrnod yr hysbyswyd yr ymgeisydd ohono os nad yw'r ymgeisydd, yn ystod y cyfnod hwnnw, wedi cyfeirio'r penderfyniad, yn ysgrifenedig, at y Pwyllgor Adolygu i'w ystyried dan Reol 14; ond

(b) ni fydd yn dod i rym os yw'r ymgeisydd yn cyfeirio'r penderfyniad yn y fath fodd; a bydd unrhyw benderfyniad arall dan baragraff (5) yn dod i rym cyn gynted ag y gwneir y cyfryw benderfyniad.

## RHAN III Monitro a sicrhau ansawdd

### 9. Darparu gwybodaeth

(1) Rhaid i sefydliad ddarparu gwybodaeth i bob darpar fyfyrwr am –

(a) ei broses a'i feini prawf ar gyfer dethol myfyrwyr;

(b) llwybrau tuag at gwblhau'r rhaglen radd yn llwyddiannus;

(c) unrhyw drefniadau sydd ganddo ar gyfer achredu profiad a dysgu blaenorol;

(d) ei bolisiau cyfle cyfartal;

(e) ei drefniadau ar gyfer myfyrwyr anabl;

(f) cynllun iaith Gymraeg y sefydliad, polisi iaith Gymraeg y rhaglen radd, a threfniadau i fyfyrwyr ddysgu a chael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg;

(g) y gofyniad bod myfyrwyr gwaith cymdeithasol yn cael eu cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

(2) Rhaid i sefydliad lunio llawlyfr blynyddol ar gyfer myfyrwyr sy'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am –

(a) fanyleb y rhaglen;

(b) y broses asesu;

(c) cwynion, terfynu lle myfyriwr ar y rhaglen a threfniadau apelio a datgelu camarfer; a

(d) darparu trawsgriadau o gyrhaeddiad myfyrwyr ac anghenion dysgu yn y dyfodol.

(3) Rhaid i sefydliad roi'r wybodaeth ganlynol i Ofal Cymdeithasol Cymru yn y fformat, ar y dyddiad, parthed y cyfnod amser, ac ar lefel manylder, a bennir gan Ofal Cymdeithasol Cymru –

(a) nifer yr ymgeiswyr am lefydd ar y rhaglen radd;

(b) nifer y cynigion a wnaed am lefydd ar y rhaglen radd;

(c) nifer y myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar y rhaglen radd;

(d) nifer y myfyrwyr ar bob un o lefelau asesu'r rhaglen radd sydd wedi –

- cael eu cyfeirio (hynny yw, eu bod wedi gorfod ailgyflwyno darn o waith ar gyfer asesu pellach);

- cael eu dal yn ôl;

- cael eu tynnu'n ôl dros dro oddi ar y rhaglen;

- cael eu tynnu'n ôl yn barhaol oddi ar y rhaglen;

- gadael y rhaglen gyda chymhwyster;

- methu'r rhaglen.

(e) nifer y myfyrwyr a gafodd gynnig mynediad gyda chredyd yn sgil achredu profiad a dysgu blaenorol;

(f) nifer y lleoliadau dysgu ymarfer a gychwynnodd yn hwyr;

(g) manylion gweithredu goblygiadau cyfle cyfartal y sefydliadau dan y Rheolau hyn.

(4) Rhaid i sefydliad ddarparu'r canlynol i Ofal Cymdeithasol Cymru yn flynyddol (gan ddechrau gyda dyddiad i'w bennu gan Ofal Cymdeithasol Cymru) –

(a) y llawlyfr cyfredol i fyfyrwyr; ac

(b) adroddiad yn crynhoi canlyniad yr holl gwynion yr ymchwiliwyd iddynt yn y flwyddyn flaenorol dan baragraff 4(7)(a) o'r Atodlen.

(5) Rhaid i sefydliad –

(a) hysbysu Gofal Cymdeithasol Cymru yn ddi-oed am unrhyw fater a allai fwrw amheuaeth ynghylch parhau i gofrestru myfyriwr gyda Gofal Cymdeithasol Cymru dan Adran 80(1)(b) o'r Ddeddf;

(b) hysbysu Gofal Cymdeithasol Cymru yn ddi-oed am unrhyw fyfyrwr y mae ei le ar y rhaglen radd wedi'i derfynu;

(c) darparu adroddiad ysgrifenedig i Ofal Cymdeithasol Cymru am unrhyw werthusiad a wnaethpwyd, neu gynllun gweithredu a luniwyd, dan y trefniadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 4 o'r Atodlen (Polisiau a Gweithdrefnau Gofynnol);

(d) yn ychwanegol at y gofyniad dan baragraff (4) (b), darparu manylion i Ofal Cymdeithasol Cymru yn rheolaidd am benderfyniadau a wnaethpwyd dan y drefn gwyno fel sy'n ofynnol dan baragraff 4(7)(a) o'r Atodlen;

(e) darparu copi i Ofal Cymdeithasol Cymru o unrhyw adroddiad a luniwyd dan baragraff 7(2) (b) (gwerthusiadau sicrhau ansawdd) neu 7(2)(d) (adroddiadau arholwyr allanol) o'r Atodlen;

(f) darparu copi i Ofal Cymdeithasol Cymru o unrhyw gynllun gweithredu a luniwyd dan baragraff 7(2)(f) o'r Atodlen.

(6) Rhaid i sefydliad ddarparu unrhyw wybodaeth arall y gall Gofal Cymdeithasol Cymru yn rhesymol fod ei hangen er mwyn ystyried a yw rhaglen radd y sefydliad yn parhau i fodloni'r gofynion dan y Rheol hon a Rheol 5, ac a fydd y rhaglen radd yn parhau i alluogi unigolion sy'n ei chwblhau i gyrraedd y safon hyfedredd ofynnol mewn gwaith cymdeithasol perthnasol (Rheol 6).

### 10. Adolygiadau

(1) Rhaid i sefydliad –

(a) wahodd Gofal Cymdeithasol Cymru i gyfrannu at unrhyw adolygiad y mae'n bwriadu ymgymryd ag ef fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd sy'n ofynnol dan baragraff 8 o'r Atodlen, ac â chytundeb ASA, unrhyw adolygiad gan ASA mewn perthynas â'r rhaglen radd;

(b) pan fydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn cyfrannu at adolygiad o'r fath, cydgysylltu â Gofal Cymdeithasol Cymru ynghylch amseriad a methodoleg yr adolygiad;

(c) yn achos adolygiad dan baragraff 7 o'r Atodlen, rhoi sylw ynddo i faterion a all fod yn ofynnol gan Ofal Cymdeithasol Cymru, a chaniatáu i Ofal Cymdeithasol Cymru gyfrannu at unrhyw adroddiad sy'n deillio o adolygiad y mae wedi cyfrannu ato;

(d) darparu unrhyw adroddiad neu gynllun gweithredu i Ofal Cymdeithasol Cymru sy'n deillio o adolygiad o'r fath;

(e) cydweithredu â Gofal Cymdeithasol Cymru mewn unrhyw adolygiad o'r rhaglen radd y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn penderfynu ymgymryd ag ef.

### 11. Arolygwyr

(1) Gall Gofal Cymdeithasol Cymru benodi personau (y cyfeirir atynt yn y Rheolau hyn fel "arolygwyr") i arolygu unrhyw leoedd lle, neu sefydliadau yn ôl pa un, neu o dan gyfarwyddyd pa un –

(a) y rhoddir, neu y bwriedir rhoi, rhaglen radd (neu ran o raglen o'r fath); neu

(b) y cynhelir, neu y bwriedir cynnal, unrhyw arholiad mewn cysylltiad ag unrhyw gwrs perthnasol arall (neu ran o gwrs o'r fath)<sup>4</sup>.

(2) Ni chaiff unrhyw arolygwr weithredu fel y cyfryw mewn perthynas ag –

(a) unrhyw le neu sefydliad lle mae'n rhoi cyfarwyddyd yn rheolaidd mewn unrhyw bwnc; neu

(b) unrhyw le neu sefydliad y mae gan yr arolygwr y fath gysylltiad y byddai arsylwr teg ei farn yn dod i'r casgliad y byddai posibilrwydd gwirioneddol y byddai'n rhagfarnlyd pe bai'n gweithredu fel arolygwr yn y lle neu'r sefydliad.

(3) Lle mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn trefnu i le neu sefydliad gael ei arolygu o dan y Rheol hon, mae'n rhaid iddo hysbysu'r sefydliad dan sylw yn ysgrifenedig am –

(a) yr arolygydd; a

(b) diben yr arolygiad.

(4) Yn dilyn arolygiad, gall swyddog wedi'i awdurdodi'n briodol o Ofal Cymdeithasol Cymru ofyn i'r arolygydd ddarparu adroddiad drafft ar y cyfryw faterion yn ymwneud â natur ac ansawdd –

(a) y cyfarwyddyd a roddwyd, neu sydd i'w roi, a'r cyfleusterau a ddarparwyd neu sydd i'w darparu, gan y sefydliad neu le (gan gynnwys materion yn ymwneud â phrosesau sicrhau ansawdd a rheoli cyrsiau) y gallai Gofal Cymdeithasol Cymru fod wedi'u pennu wrth wneud trefniadau ar gyfer yr arolygiad neu ar ddyddiad diweddarach; ac

(b) unrhyw arholiad a gynhaliwyd, neu y bwriedir ei gynnal, mewn cysylltiad ag unrhyw gwrs perthnasol y gallai Gofal Cymdeithasol Cymru fod wedi'i bennu wrth wneud trefniadau ar gyfer yr arolygiad neu ar ddyddiad diweddarach.

(5) Rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru pan fydd yn derbyn adroddiad drafft o dan baragraff (4) –

(a) anfon copi ohono at y sefydliad; a

(b) hysbysu'r sefydliad am gyfnod, nad yw'n llai nag un mis o ddyddiad yr hysbysiad, pan fydd yn gallu gwneud sylwadau ar yr adroddiad drafft.

(6) Ar ôl ystyried unrhyw arsylwadau o dan baragraff (5), rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru baratoi adroddiad terfynol ac anfon copi ohono at y sefydliad.

(7) Ni chaniateir i Ofal Cymdeithasol Cymru gymryd unrhyw gamau gweithredu o dan y Rheolau hyn o ganlyniad i adroddiad a luniwyd o dan y Rheol hon cyn diwedd y cyfnod a bennwyd ym mharagraff (5) (b).

(8) Gall Gofal Cymdeithasol Cymru dalu ffioedd, lwfansau a threuliau rhesymol (sef lwfansau a threuliau tebyg i'r rhai sy'n daladwy i staff Gofal Cymdeithasol Cymru) i arolygwyr nad ydynt yn aelodau o staff Gofal Cymdeithasol Cymru, gan ystyried hyd unrhyw arolygiad a gynhaliwyd neu sydd i'w gynnal, yr amser a gymerwyd neu y mae'n debygol o'i gymryd i baratoi unrhyw adroddiad drafft a chymhlethdod y materion sydd i'w hystyried neu y mae'n debygol y cânt eu hystyried mewn cysylltiad ag arolygiad.

(9) Gall Gofal Cymdeithasol Cymru drin arolygydd fel aelod o staff Gofal Cymdeithasol Cymru at ddiben Atodlen 2 o'r Ddeddf.

## 12. Ymchwiliadau â ffocws

(1) Yn amodol ar baragraff (2), gall Gofal Cymdeithasol Cymru gynnal ymchwiliad (y cyfeirir ato yn y Rheolau hyn fel "ymchwiliad â ffocws") i raglen radd gymeradwy mewn unrhyw un o'r achosion a ganlyn –

(a) lle credir nad yw'r rhaglen na'r sefydliad o bosibl yn bodloni gofynion Rheol 5 mwyach neu nad yw'r rhaglen radd yn caniatáu i unigolion sy'n ei chwblhau gyrraedd y safon hyfedredd ofynnol mewn gwaith cymdeithasol perthnasol mwyach;

(b) lle credir nad yw'r rhaglen yn cael ei darparu yn unol ag amodau'r gymeradwyaeth a roddwyd iddi;

(c) lle credir bod y sefydliad wedi methu â cheisio cydsyniad i ddiwygio fel sy'n ofynnol dan Reol 8(1);

(d) lle credir bod y sefydliad wedi methu â rhoi diwygiad ar waith ar ffurf a newidiwyd dan Reol 8 (neu, ar ôl adolygu, dan Reol 14);

(e) lle credir bod y sefydliad wedi methu â rhoi cynllun gweithredu ar waith fel sy'n ofynnol dan Reol 8 (neu, ar ôl adolygu, dan Reol 14);

(f) lle credir bod y sefydliad wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad dan Reol 9;

(g) lle credir bod y sefydliad wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad dan Reol 10.

(2) Ni ddylai Gofal Cymdeithasol Cymru fwrw ymlaen ag ymchwiliad â ffocws oni bai:

(a) ei fod, o fewn 30 diwrnod i'w benderfyniad i gynnal yr ymchwiliad, wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r sefydliad dan sylw o hynny; a

(b) bod yr hysbysiad hwnnw'n pennu'r rhesymau dros y penderfyniad, y drefn y bwriedir ei dilyn gyda'r ymchwiliad (gan gynnwys a fwriedir archwilio dogfennau a chyfweld pobl sy'n gysylltiedig â'r rhaglen radd) a'r amserlen ar gyfer ei gynnal.

(3) Rhaid i'r sefydliad dan sylw helpu Gofal Cymdeithasol Cymru i gynnal yr ymchwiliad.

(4) Pan fydd yr ymchwiliad wedi'i gwblhau, rhaid i swyddog awdurdodedig priodol Gofal Cymdeithasol Cymru –

(a) lunio adroddiad ar yr ymchwiliad gan gynnwys y rheswm dros ei gynnal, y ffordd y'i cynhaliwyd a'r canfyddiadau;

(b) rhoi ei farn/barn yn yr adroddiad ynghylch o leiaf un o'r canlynol:

(i) a yw'r rhaglen radd a'r sefydliad yn bodloni gofynion Rheol 5 ai peidio;

(ii) a yw'r rhaglen yn mynd i alluogi unigolion sy'n ei chwblhau i gyrraedd y safon hyfedredd ofynnol mewn gwaith cymdeithasol perthnasol ai peidio;

(iii) a yw'r rhaglen yn cael ei darparu yn unol ag unrhyw amodau a osodwyd wrth ei chymeradwyo; a

(c) rhoi copi o'r adroddiad i'r sefydliad.

(5) Pan fydd y swyddog awdurdodedig priodol yn rhoi barn negyddol dan is-baragraff (4)(b), rhaid i un o uwch swyddogion dynodedig Gofal Cymdeithasol Cymru ystyried y materion a godir yn yr adroddiad yn unol â pharagraff (6).

(6) Rhaid i'r uwch swyddog dynodedig –

(a) wahodd y sefydliad dan sylw i gyflwyno sylwadau ar yr adroddiad;

(b) ar ôl ystyried y sylwadau hynny, rhaid iddo ddod i benderfyniad ei hun am y mater neu'r materion y mynegwyd barn negyddol arno/arnynt gan y swyddog awdurdodedig priodol (ac at ddibenion y Rheolau hyn, pan fydd ei benderfyniad ef/hi yn cytuno â'r farn honno, ystyrir bod y rhaglen wedi "torri amodau"); a

(c) rhoi gwybod i'r sefydliad am y canfyddiadau hynny yn ysgrifenedig.

(7) Pan fydd amodau'r rhaglen radd wedi'u torri, gall yr uwch swyddog dynodedig, dan unrhyw rai o'r amgylchiadau canlynol, argymhell i'r Pwyllgor Arolygu y dylid cynnal arolygiad dan Reol 13 –

(a) lle nad yw ef/hi wedi gallu cytuno ar gynllun gweithredu gyda'r sefydliad i gywiro'r tor-amod;

(b) pan fo ef/hi o'r farn bod y sefydliad wedi methu â rhoi cynllun gweithredu o'r fath ar waith o fewn amserlen a bennwyd gan y swyddog;

(c) pan fo ef/hi o'r farn na fyddai'n bosibl cywiro'r tor-amod o fewn amser derbyniol;

(d) pan fo ef/hi o'r farn bod y sefydliad wedi methu â helpu swyddog awdurdodedig priodol Gofal Cymdeithasol Cymru pan oedd yn cynnal ymchwiliad â ffocws;

a phan fo'r swyddog wedi gwneud argymhelliad o'r fath, rhaid iddo/iddi hysbysu'r sefydliad ynglŷn â hynny a'r rhesymau dros gyfeirio.

## 13. Arolygiadau o dan gyfarwyddyd y Pwyllgor Arolygu

(1) Mae'r amgylchiadau ar gyfer cynnal arolygiad o raglen radd gymeradwy dan y Rheol hon fel a ganlyn –

(a) yn dilyn argymhelliad dan Reol 12(7);

(b) lle mae ymchwiliad â ffocws ar fwy nag un achlysur wedi arwain at ganfyddiad dan Reol 12(6)(b) bod amodau'r rhaglen wedi'u torri;

(c) pan fo'r Pwyllgor Arolygu o'r farn y methwyd â chydymffurfio â gofyniad a osodwyd dan baragraff (3) (b)(ii) neu Reol 14(1)(c) (adolygu penderfyniadau);

(d) pan fo'r Pwyllgor Arolygu o'r farn bod risg gwirioneddol na fydd y rhaglen radd yn galluogi unigolyn sy'n ei chwblhau i gyrraedd y safon hyfedredd ofynnol mewn gwaith cymdeithasol perthnasol.

(2) Bydd y Pwyllgor Arolygu –

(a) yn gyfrifol am benderfynu a ddylid cynnal arolygiad ai peidio;

(b) os yw'n penderfynu y dylid cynnal arolygiad –

(i) yn hysbysu'r sefydliad yn ysgrifenedig o'i benderfyniad gan nodi'i resymau, y drefn y bwriedir ei dilyn gyda'r arolygiad a'r amserlen ar gyfer cynnal yr arolygiad; ac

(ii) yn penodi is-bwyllgor i gynnal yr arolygiad, a'i gwneud yn ofynnol i'r pwyllgor gyflwyno adroddiad iddo ar yr arolygiad; ac

(c) ar ôl derbyn adroddiad yr is-bwyllgor –

(i) yn rhoi copi o'r adroddiad i'r sefydliad; ac

(ii) yn hysbysu'r sefydliad o'r cyfnod, sef dim llai nag un mis o'r dyddiad y cafodd y sefydliad y copi, y gall gyflwyno sylwadau ar yr adroddiad i'r Pwyllgor Arolygu.



(3) Pan fo arolygiad wedi'i gynnal, rhaid i'r Pwyllgor Arolygu –

(a) benderfynu, ar ôl ystyried adroddiad yr is-bwyllgor ac unrhyw sylwadau gan y sefydliad dan baragraff (2)(c), a yw'r rhaglen radd a'r sefydliad yn ei farn ef, yn bodloni gofynion Rheol 5 ai peidio, a fydd y rhaglen yn galluogi'r bobl sy'n ei chwblhau i gyrraedd y safon hyfedredd ofynnol mewn gwaith cymdeithasol perthnasol ai peidio, ac a yw'r rhaglen yn cael ei chynnal yn unol ag amodau ei chymeradwyo ai peidio;

(b) pan fo gan y pwyllgor farn negyddol ynghylch unrhyw un o'r materion a grybwyllir yn is-baragraff (a), naill ai –

(i) tynnu'r gymeradwyaeth a roddwyd i'r rhaglen radd dan y Rheolau hyn yn ôl; neu

(ii) gosod gofynion ynghylch cynnal y rhaglen radd yn y dyfodol.

(4) Rhaid i'r Pwyllgor Arolygu hysbysu'r sefydliad yn ysgrifenedig o benderfyniad dan baragraff (3), ynghyd â'i resymau a datganiad yn nodi hawl y sefydliad i adolygiad dan Reol 14.

(5) Pan fo'r Pwyllgor Arolygu yn gwneud penderfyniad dan baragraff (3)(b), bydd y penderfyniad –

(i) yn dod i rym 28 diwrnod ar ôl y diwrnod yr hysbyswyd yr ymgeisydd ohono os nad yw'r ymgeisydd, yn ystod y cyfnod hwnnw, wedi cyfeirio'r penderfyniad, yn ysgrifenedig, at y Pwyllgor Adolygu i'w ystyried dan Reol 14; ond

(ii) yn peidio â dod i rym os yw'r ymgeisydd yn cyfeirio'r penderfyniad.

(6) Rhaid i'r is-bwyllgor a benodir dan baragraff (2)(b)(ii) gynnwys o leiaf ddau aelod (gan gynnwys un swyddog o Ofal Cymdeithasol Cymru), a gall gynnwys unigolion a benodir dan Reol 11.

(7) Ni all unrhyw aelod o is-bwyllgor a benodir dan baragraff (2)(b)(ii) gyfrannu hefyd at waith y pwyllgor arolygu sy'n deillio o adroddiad yr is-bwyllgor.

## RHAN IV Adolygu penderfyniadau

### 14. Adolygu penderfyniadau

(1) Yn sgil cyfeirio a wneir yn briodol dan Reol 4, 8 neu 13, bydd y mater dan sylw'n cael ei ystyried gan Bwyllgor Adolygu a fydd yn gorfod, yn unol â'r Rheol hon –

(a) yn achos cyfeirio dan Reol 4 (ystyried ceisiadau), gwneud un o'r penderfyniadau y cyfeirir atynt yn Rheol 4(3)(a) neu (b), ac at ddibenion yr is-baragraff hwn, bydd y Rheol honno'n berthnasol fel petai unrhyw gyfeiriad at yr uwch swyddog dynodedig yn gyfeiriad at y Pwyllgor Adolygu;

(b) yn achos cyfeirio dan Reol 8 (diwygiadau i raglenni gradd), gwneud un o'r penderfyniadau y cyfeirir atynt yn Rheol 8(5) ac, at ddibenion yr is-baragraff hwn, bydd y Rheol honno'n berthnasol fel petai unrhyw gyfeiriad at yr uwch swyddog dynodedig yn gyfeiriad at y Pwyllgor Adolygu;

(c) yn achos cyfeirio dan Reol 13 (arolygiadau), gwneud penderfyniad ar y materion y cyfeirir atynt yn Rheol 13(3)(a) ac os rhoddir barn negyddol ar unrhyw un o'r materion hynny, gwneud un o'r penderfyniadau y cyfeirir atynt yn Rheol 13(3)(b), ac at ddibenion yr is-baragraff hwn, bydd y Rheol honno'n berthnasol fel petai unrhyw gyfeiriad at yr uwch swyddog dynodedig yn gyfeiriad at y Pwyllgor Adolygu.

(2) Rhaid i Bwyllgor Adolygu –

(a) gynnwys Cadeirydd a dau berson arall, a rhaid i bob un ohonynt fod yn aelodau o Ofal Cymdeithasol Cymru;

(b) yn sgil cyfeirio dan Reol 13, ni ddylai gynnwys unrhyw berson a oedd yn aelod o'r Pwyllgor Arolygu neu'r is-bwyllgor a ystyriodd y mater dan y Rheol honno.

(3) Rhaid i Bwyllgor Adolygu –

(a) ystyried yr adolygiad o fewn 30 diwrnod gwaith i dderbyn hysbysiad ysgrifenedig y sefydliad gan Ofal Cymdeithasol Cymru, yn cyfeirio'r mater i'w adolygu dan y Rheol hon, neu gyfnod hwy fel y gall y pwyllgor ei bennu'n rhesymol cyn i'r 30 diwrnod y cyfeiriwyd ato'n gynharach ddod i ben;

(b) gall wrando ar sylwadau llafar neu ysgrifenedig cyn gwneud ei benderfyniad; a

(c) hysbysu'r sefydliad dan sylw o'i benderfyniad o fewn pum niwrnod gwaith i'r diwrnod y'i gwnaed, a rhoi rhesymau ysgrifenedig am ei benderfyniad o fewn 20 diwrnod gwaith i'r diwrnod y'i gwnaed.

### Llofnodwyd ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru



### Cadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru 25 Hydref 2018

## YR ATODLEN

### Meini Prawf ar gyfer Cymeradwyo a Sicrhau Ansawdd Rhaglenni Gradd Gwaith Cymdeithasol

#### 1. Gweithio mewn partneriaeth

(1) Er mwyn i raglen gael ei chymeradwyo gan Ofal Cymdeithasol Cymru:

(a) Bydd angen tystiolaeth gan sefydliad Addysg Uwch (AU) a chyflogwr (cyflogwyr) bod gweithwyr cymdeithasol yn rhannu cyfrifoldeb am ddatblygu, cyflwyno a rheoli gradd gwaith cymdeithasol. Byddai tystiolaeth o'r fath yn cynnwys trefniant partneriaeth ffurfiol rhwng o leiaf un Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r sefydliad AU<sup>5</sup>. Bydd pob trefniant o'r fath yn pennu'r adnoddau (gan gynnwys cyfleoedd dysgu ymarfer digonol) y dylid eu darparu er mwyn cynorthwyo â chyflwyno a rheoli'r rhaglen radd.

(b) Rhaid i'r sefydliad gynnwys pobl ag anghenion gofal a chymorth a'u gofalwyr a chynrychiolwyr cyflogwyr gweithwyr cymdeithasol ym mhob cam o'r broses o ddatblygu, rheoli a chyflawni'r rhaglen radd (gan gynnwys dethol ac asesu myfyrwyr).

(2) Gall y rhaglen radd hefyd lunio cytundebau partneriaeth ysgrifenedig pellach gyda chyflogwyr eraill gweithwyr cymdeithasol fel rhan o'u busnes neu wrth ymgymryd â'u swyddogaethau.

#### 2. Darparu adnoddau

(1) Rhaid i'r sefydliad ddyrannu adnoddau digonol i'r rhaglen radd er mwyn sicrhau:

(a) bod digon o bobl gymwys a phrofiadol (gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol cofrestredig) yn cyfrannu at y rhaglen radd er mwyn i bob myfyriwr dderbyn dysgu academaidd ac ymarferol digonol sydd wedi'i asesu, ei strwythuro a'i gyfarwyddo<sup>6</sup>;

(b) bod myfyrwyr yn gallu dysgu a chael eu hasesu i'r un safon drwy gyfrwng y Gymraeg;

(c) bod myfyrwyr yn cael mynediad digonol at ddeunyddiau dysgu cyfredol a phriodol;

(d) bod myfyrwyr yn cael mynediad at amgylchedd dysgu sy'n gallu darparu ar gyfer modelau a dulliau dysgu amrywiol<sup>7</sup>;

(e) bod pawb sy'n gysylltiedig â darparu'r rhaglen radd, gan gynnwys pobl ag anghenion gofal a chymorth a'u gofalwyr, yn derbyn hyfforddiant cyflwyno a hyfforddiant parhaus i'w galluogi i gyfrannu'n effeithiol at y rhaglen a diweddarau'u gwybodaeth a'u sgiliau mewn perthynas â hyfforddi gweithwyr cymdeithasol.

(2) Rhaid i'r sefydliad, drwy ei gytundeb neu gytundebau partneriaeth ac fel arall, feddu ar adnoddau digonol i sicrhau bod –

(a) myfyrwyr yn derbyn cyfleoedd dysgu ymarferol digonol at ddiben Rheol 6(2)(h); a

(b) bod nifer digonol o addysgwyr ymarfer ar gael (fel y disgrifir ym mharagraff 6(1)(j)) i asesu myfyrwyr ym mhob cyfnod o ddysgu ymarfer.

#### 3. Dethol myfyrwyr ar gyfer y rhaglen radd

(1) Cyn derbyn ymgeisydd ar raglen radd, rhaid i'r sefydliad gynnal asesiad ohono/ohoni a fydd yn fodd i'r sefydliad fod yn eithaf sicr bod<sup>8</sup>:

(a) yr ymgeisydd yn meddu ar y potensial i gyrraedd y safon hyfedredd ofynnol mewn gwaith cymdeithasol perthnasol (Rheol 6) ar ôl cwblhau'r cwrs<sup>9</sup>;

(b) yr ymgeisydd yn meddu ar brofiad perthnasol digonol o ofal cymdeithasol fel ei fod yn gallu arddangos y gwerthoedd a'r sgiliau sylfaenol sy'n cyfateb i'r rhai sy'n ddisgwyliedig yn gyffredinol gan weithwyr cymdeithasol<sup>10</sup>;

(c) yr ymgeisydd wedi darllen a deall y *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol* a gyhoeddir gan Ofal Cymdeithasol Cymru dan Adran 112 o'r Ddeddf;

(d) yr ymgeisydd yn meddu ar sgiliau cyfathrebu a chymhwyso rhifyddol sy'n cyfateb i Lefel 2 neu uwch fel y pennir gan Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru; ac

(e) yr ymgeisydd yn gallu cyfathrebu'n effeithiol ac â meistrolaeth dda ar Gymraeg neu Saesneg ysgrifenedig a llafar, gan gynnwys darllen a deall.

(2) Rhaid i'r asesiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1) gynnwys cyfweiliad unigol gyda'r ymgeisydd, a rhaid iddo gael ei gynnal yn ei wydd ef neu hi.

(3) Cyn derbyn ymgeisydd ar raglen radd, rhaid i'r sefydliad:

(a) fodloni'i hun ynghylch ffitrwydd meddygol ymgeisydd a'i gymeriad o ran bod yn addas i weithio ym maes gwaith cymdeithasol;

(b) os yw'n bosibl darparu tystysgrif i ymgeisydd dan Ran V o Ddeddf yr Heddlu 1997 (tystysgrifau cofnodion troseddol), sicrhau bod ymgeisydd yn darparu'r dystysgrif fwyaf cynhwysfawr y gellir ei darparu dan y Rhan honno;

(c) os oes gofyn cofrestru'r ymgeisydd dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed 2006, bodloni'i hun bod y rhif a neilltuwyd i'r ymgeisydd hwnnw gan yr Awdurdod Diogelu Annibynnol wedi cael ei ddarparu; a

(d) hysbysu myfyrwyr sy'n dymuno dod yn weithwyr cymdeithasol:

(i) ynglŷn â'r gofyniad i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru dan Adran 80(1)(b) o'r Ddeddf;

(ii) ei fodloni ei hun bod y myfyriwr wedi cofrestru yn y cyfryw fodd<sup>11</sup>.

#### 4. Polisiâu a gweithdrefnau gofynnol

(1) Rhaid i'r sefydliad feddu ar bolisi sy'n bodloni gofynion cyfreithiol Deddf Cydraddoldeb 2010 a Chynllun laith Gymraeg sy'n cydymffurfio â Deddf yr laith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg 2011. Rhaid i'r ddau fodloni gofynion y Rheolau hyn hefyd.

(2) Rhaid i'r sefydliad feddu ar Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sy'n bodloni gofynion Adran 149(1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

(3) Rhaid i'r sefydliad hyrwyddo a pharchu cyfle cyfartal a hawliau dynol (yn unol â Deddf Hawliau Dynol 1998) ym mhob agwedd ar gyflwyno'r rhaglen radd gan gynnwys (ond heb ei gyfyngu i):

(a) recriwtio staff at ddibenion y rhaglen;

(b) dethol myfyrwyr ar gyfer y rhaglen;

(c) cyflwyno'r rhaglen;

(d) asesu myfyrwyr ar y rhaglen.

(4) Rhaid i'r sefydliad ymdrechu i'r eithaf i ddiogelu unrhyw berson sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r rhaglen radd rhag cael ei gam-drin mewn unrhyw ffordd.

(5) Rhaid i'r sefydliad sefydlu trefniadau i werthuso ei gydymffurfiaid â'r gofynion dan is-baragraffau (1) a (2) a'i bolisiau cyfle cyfartal, ymarfer gwrthwahaniaethol a'r iaith Gymraeg, a chydymffurfio â'r trefniadau hynny.

(6) Rhaid i'r sefydliad sicrhau y bydd, dan y trefniadau a grybwyllir yn is-baragraff (5):

(a) yn datblygu ac yn dilyn cynllun gweithredu mewn unrhyw achos lle mae mewn perygl o beidio â chydymffurfio â'r gofynion dan is-baragraff (1) neu (2) neu unrhyw rai o'r cyfrifoldebau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (3); ac

(b) yn archwilio sgiliau Cymraeg myfyrwyr a chofnodi'r nifer sy'n dymuno dilyn y rhaglen gyfan neu ran ohoni drwy gyfrwng y Gymraeg.

(7) Rhaid i'r sefydliad sefydlu, dilyn a rhoi cyhoeddusrwydd i weithdrefnau ar gyfer:

(a) ystyried cwynion sy'n gysylltiedig â'r rhaglen radd;

(b) pennu addasrwydd myfyrwyr a therfynu lle myfyriwr ar y rhaglen radd pe gwelir eu bod yn anaddas ar gyfer gwaith cymdeithasol;

(c) apeliadau gan fyfyrwyr ar y rhaglen radd yn erbyn penderfyniadau asesu a wneir yn eu cylch; a

(d) datgelu camarfer.

(8) Rhaid i'r gweithdrefnau dan baragraff (7) nodi (fel y bo'n briodol):

(a) yr amserlenni ar gyfer gwneud penderfyniadau dan y gweithdrefnau;

(b) yr unigolion a fydd yn gwneud penderfyniadau dan y gweithdrefnau;

(c) amrediad posibl canlyniadau'r penderfyniadau dan y gweithdrefnau;

(d) y cedwir cofnodion ysgrifenedig o benderfyniadau dan y gweithdrefnau, gan gynnwys y rhesymau drostynt;

(e) bod y sefydliad wedi ymrwmo i wneud penderfyniadau dan y gweithdrefnau mewn modd teg; ac

(f) y broses apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir dan y gweithdrefnau.

## 5. Meini prawf dysgu

**(1)** Rhaid i'r sefydliad ddarparu manyleb rhaglen i Ofal Cymdeithasol Cymru:

(a) sy'n bodloni Cod Ansawdd yr ASA, ac fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd, ar fanylebion o'r fath ac sy'n dangos sut bydd y rhaglen radd yn galluogi myfyrwyr i gyrraedd y safon hyfedredd ofynnol mewn gwaith cymdeithasol perthnasol (Rheol 6);

(b) rhoi cyfle i bob myfyriwr ddatblygu hunaniaeth broffesiynol fel gweithiwr cymdeithasol drwy brofiad dysgu cydlynus ac integredig;

**(2)** Heb leihau effaith is-baragraff (1), rhaid i'r sefydliad sicrhau:

(a) bod pob myfyriwr yn cael cynnig oddeutu 1,200 awr o ddysgu academaidd sydd yn cael ei asesu, ei strwythuro a'i gyfarwyddo a than arweiniad sy'n ddigon i roi'r cyfle iddo/iddi fodloni'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol;

(b) y caiff cynnwys pob rhaglen ei lywio gan y wybodaeth bynciol, a sgiliau pwnc a sgiliau eraill, a ddisgrifir yn y Datganiadau Meincnodi ar gyfer Gwaith Cymdeithasol;

(c) bod pob myfyriwr yn cael cynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau ymarfer gwaith cymdeithasol yn ystod y 1,200 awr o ddysgu academaidd sy'n cael ei asesu, ei strwythuro a'i gyfarwyddo, a thrwy dysgu ymarfer sy'n cael ei asesu fel sy'n cael ei nodi yn y safon hyfedredd ofynnol mewn gwaith cymdeithasol perthnasol (Rheol 6);

(d) bod o leiaf un cyfle dysgu ymarfer o'r fath nid llai na 80 diwrnod mewn adran gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol ac yn cynnwys

profiad o ymgymryd â swyddogaethau statudol gwasanaethau cymdeithasol gan gynnwys diogelu<sup>12</sup>;

(e) bod darpariaeth ar gael i fyfyrwyr ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg;

(f) bod yr addysg a'r dysgu yn y sefydliad ac mewn lleoliadau ymarfer yn adlewyrchu deddfwriaeth gyfredol, polisi cymdeithasol a datblygiadau deddfwriaethol sy'n berthnasol i Gymru. Bydd hyn yn cynnwys hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yn egniol (o fewn ystyr Deddf Hawliau Dynol 1998, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau), gan gynnwys hyrwyddo arfer gwrth-wahaniaethol a gwrth-ormesol;

(g) bod myfyrwyr yn gallu pennu, deall ac ymateb i faterion sy'n gysylltiedig â swyddogaethau statudol diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion bregus;

(h) bod myfyrwyr yn deall dulliau ymchwil ac yn gallu gwneud defnydd priodol o ymchwil wrth wneud penderfyniadau a barnu'n broffesiynol ynghylch ymarfer ac wrth werthuso canlyniadau;

(i) bod myfyrwyr yn gallu pennu, deall ac ymateb i faterion sy'n benodol i anghenion Cymru neu sy'n nodweddiadol o anghenion Cymru, ei hieithoedd, ei deddfwriaeth a'i sefydliadau, a safle nodedig yr iaith Gymraeg;

(j) bod myfyrwyr, ar ôl cwblhau'r rhaglen Radd, yn derbyn trawsgrifiad a fydd yn nodi eu cyflawniadau a'u hanghenion dysgu yn y dyfodol ("trawsgrifiad myfyriwr").

## 6. Meini prawf asesu

**(1)** Wrth asesu myfyrwyr, rhaid i'r sefydliad fodloni'r gofynion canlynol –

(a) sicrhau bod rhaid i bob myfyriwr fodloni'r meini prawf asesu ar bob lefel academaidd yn y rhaglen radd yn unol â'r Fframwaith Asesu cyn symud ymlaen i'r lefel nesaf;

(b) heb leihau effaith paragraff 4(7)(c), sicrhau bod pob myfyriwr, ar bob lefel asesu, yn cael ei asesu gan Fwrdd Arholi a fydd wedyn yn penderfynu, yn unol â'r Fframwaith Asesu, a yw'r myfyriwr wedi bodloni'r gofynion asesu ar gyfer y lefel honno;

(c) sicrhau bod y Bwrdd Arholi'n bodloni ei hun, adeg yr asesiad terfynol, fod pob myfyriwr wedi cyrraedd y safon hyfedredd ofynnol mewn gwaith cymdeithasol perthnasol (Rheol 6);

(d) sicrhau bod y Bwrdd Arholi'n cynnwys o leiaf un arholwr allanol, Cadeirydd y Panel Asesu Ymarfer a chynrychiolydd o blith cyflogwyr gweithwyr cymdeithasol;

(e) sicrhau bod y Bwrdd Arholi a'r Panel Asesu Ymarfer yn meddu ar Gylch Gorchwyl cytûn a chyfredol;

(f) sicrhau bod gan y rhaglen radd Banel Asesu Ymarfer (a fydd yn cynnwys staff y rhaglen radd, cynrychiolwyr o blith cyflogwyr gweithwyr cymdeithasol a phobl ag anghenion gofal a chymorth neu'u gofalwyr) i reoli'r broses o asesu ymarfer ar bob lefel, safoni argymhellion addysgwyr ymarfer, a gwneud argymhellion wedyn ar bob myfyriwr i'r Bwrdd Arholi;

(g) cynnal adolygiad interim gyda'r addysgwr ymarfer o gynnydd pob myfyriwr yn ystod unrhyw gyfnod o ddysgu ymarfer a asesir sy'n fwy na 40 diwrnod;

(h) meddu ar systemau i nodi'r myfyrwyr y mae eu dysgu ymarfer yn nodi na fyddant o bosibl yn gallu bodloni'r safon hyfedredd ofynnol mewn gwaith cymdeithasol perthnasol (Rheol 6) erbyn diwedd eu hyfforddiant, a chymryd camau priodol;

(i) sicrhau y bydd cymhwysedd pob myfyriwr mewn ymarfer gwaith cymdeithasol yn cael ei asesu yn unol â'r gofynion ar gyfer dysgu ymarfer y cyfeirir atynt yn Rheol 6(2)(h);

(j) sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn cael eu hasesu ym mhob cyfnod o ddysgu ymarfer gan weithiwr cymdeithasol cofrestredig a phrofiadol, sy'n addysgwr ymarfer cymwysedig neu sy'n hyfforddi i fod yn addysgwr ymarfer;

(k) sicrhau, lle nad yw'r addysgwr ymarfer dynodedig hefyd yn darparu rheolaeth o ddydd i ddydd ar y safle i'r myfyriwr, bod y person sydd â'r cyfrifoldeb hwnnw yn cael ei baratoi'n briodol ac yn amserol ar gyfer y rôl;

(l) sicrhau y bydd ymarfer y myfyriwr yn cael ei asesu gan o leiaf 10 sesiwn o arsylwi uniongyrchol

gyda phobl sydd ag angen gofal a chymorth ar gymhareb o ryw un sesiwn arsylwi ar gyfer pob 20 diwrnod o ddysgu ymarfer. Rhaid i saith o'r sesiynau arsylwi uniongyrchol gael eu cynnal gan yr addysgwyr ymarfer dynodedig, a'r lleill gan weithiwr cymdeithasol cofrestredig;

(m) sicrhau bod asesu myfyrwyr yn defnyddio amrediad o ddulliau asesu sy'n addas i amrediad y wybodaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol;

(n) sicrhau bod darpariaeth ar gael i fyfyrwyr gael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg;

(o) sicrhau bod unrhyw drefniadau ar gyfer achredu dysgu a phrofiad blaenorol yn ystyried cydnabod hyd at uchafswm o 50 y cant o'r rhaglen, ar yr amod y bodlonir yr holl ofynion yn llawn<sup>13</sup>.

## 7. Meini prawf sicrhau ansawdd

**(1)**

(a) Rhaid i'r sefydliad sefydlu a chydymffurfio â threfniadau ar gyfer monitro ac adolygu pob agwedd ar y rhaglen radd mewn camau priodol (y cyfeirir atynt yn y Rheolau hyn fel "y broses sicrhau ansawdd").

(b) Yn ogystal â staff Addysg Uwch a Chyflogi y rhaglen radd, rhaid i'r broses sicrhau ansawdd gynnwys pobl eraill (gan gynnwys pobl ag anghenion gofal a chymorth, eu gofalwyr a myfyrwyr) sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r rhaglen.

**(2)** Heb leihau effaith y gofyniad cyffredinol yn is-baragraff (1), rhaid i'r sefydliad sicrhau y bydd, dan y broses sicrhau ansawdd:

(a) yn flynyddol o leiaf yn ceisio barn myfyrwyr, pobl ag anghenion gofal a chymorth a gofalwyr, staff sy'n gysylltiedig ag addysgu academaidd ac ymarfer ac asesu, a chyflogwyr gweithwyr cymdeithasol am y rhaglen radd, ac yn ymateb i'w barn;

(b) yn flynyddol o leiaf, yn gwerthuso, mewn adroddiad ysgrifenedig, berfformiad y rhaglen radd;

(c) yn penodi arholwyr sy'n annibynnol ar y sefydliad (y cyfeirir atynt yn y Rheolau hyn fel "arholwyr allanol") i werthuso a yw myfyrwyr ar y rhaglen radd yn debygol o gyrraedd y safon hyfedredd ofynnol mewn gwaith cymdeithasol perthnasol (Rheol 6);

(d) rhaid iddo sicrhau bod yr arholwyr allanol yn llunio adroddiad blynyddol ar ganlyniadau eu gwerthusiadau dan is-baragraff (c) uchod;

(e) yn dilyn adroddiad dan is-baragraff (b) neu (d), yn cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod y rhaglen radd yn parhau i fodloni gofynion yr Atodlen hon ac y bydd yn parhau i alluogi unigolion sy'n cwblhau'r rhaglen i gyrraedd y safon hyfedredd ofynnol mewn gwaith cymdeithasol perthnasol (Rheol 6);

(f) yn llunio cynllun gweithredu, a'i roi ar waith, mewn unrhyw achos lle mae'r sefydliad yn credu bod y rhaglen radd mewn perygl o beidio â pharhau i fodloni gofynion yr Atodlen hon neu o beidio â pharhau i alluogi unigolion sy'n cwblhau'r rhaglen i gyrraedd y safon hyfedredd ofynnol mewn gwaith cymdeithasol perthnasol (Rheol 6).

**(3)** Rhaid i'r sefydliad roi enw aelod o'i staff i Ofal Cymdeithasol Cymru y gall Gofal Cymdeithasol Cymru ohebu ag ef/hi ynghylch gweithredu ei broses sicrhau ansawdd.

## CYFEIRNODAU

1. Diffinnir "Gwaith Cymdeithasol Perthnasol" gan Adran 55(4) o'r Ddeddf fel gwaith cymdeithasol sy'n angenrheidiol mewn cysylltiad ag unrhyw wasanaethau iechedd, addysg neu gymdeithasol gan unrhyw berson.
2. 1988 p.40 ("Deddf 1988"). Mae Adran 214(2)(a) o Ddeddf 1988 yn cyfeirio at brifysgolion, colegau a chyrff eraill a awdurdodir gan Siarter Brenhinol, neu gan neu dan Ddeddf Seneddol i ddyfarnu graddau. Mae Adran 214(2)(b) o Ddeddf 1988 yn cyfeirio at gyrff sy'n cael hawl gan gyrff sy'n dod o dan Adran 21(2)(a) i ddyfarnu graddau ar eu rhan.
3. Yn ôl Adran 114 (5) o'r Ddeddf ni fydd cwrs ar gyfer unigolion sy'n dymuno bod yn weithwyr cymdeithasol yn cael ei gymeradwyo dan yr Adran hon oni bai bod Gofal Cymdeithasol Cymru yn meddwl y bydd y cwrs yn galluogi unigolion sy'n ei gwblhau i gyrraedd y safon ofynnol o hyfedredd mewn gwaith cymdeithasol perthnasol.
4. Mae Adran 115 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn nodi mai ystyr "cwrs perthnasol" yw (a) unrhyw gwrs y rhoddwyd cymeradwyaeth ar ei gyfer gan Ofal Cymdeithasol Cymru, neu y ceisir cymeradwyaeth o'r fath iddo dan Adran 114; neu (b) unrhyw hyfforddiant y caiff fod yn ofynnol i berson sydd wedi'i dderbyn i ran o'r gofrestr ar gyfer gweithwyr cymdeithasol a gedwir gan Ofal Cymdeithasol Cymru ei gwblhau ar ôl cofrestru.
5. Mae'r Cod Ymarfer ar Swyddogaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol dan Ran 8 (Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi: "Dylai'r cyfarwyddwr hyrwyddo dysgu cydweithredol gan y gweithlu drwy rwydweithiau a chydberthnasau â chyrff eraill. Mae hynny'n cynnwys gweithio gyda darparwyr addysg a hyfforddiant, megis cyrff addysg uwch, i sicrhau eu bod yn gallu darparu hyfforddiant perthnasol ac effeithiol a chefnogi gweithlu cymwys."
6. Bydd angen i raglenni sicrhau bod ganddynt fynediad at bersonél ag arbenigedd priodol i gyflwyno pob agwedd ar y rhaglen gymhwys. Bydd angen i raglenni cymeradwy ddynodi arbenigedd proffesiynol staff sy'n cyfrannu at y rhaglen, a rhaid i'r mwyafrif ohonynt fod yn weithwyr

cymdeithasol cymwys a phrofiadol. Disgwylir y bydd staff addysgu gwaith cymdeithasol cymwys wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, gan fod cofrestriad yn dangos ymrwymiad i:

- fodloni gofynion hyfforddi a dysgu ôl-gofrestru
  - gwaith cymdeithasol fel proffesiwn rheoleiddiedig
  - cydymffurfio â'r Còd Ymarfer Proffesiynol.
7. Bydd angen i raglenni cymeradwy gadarnhau bod ganddynt fynediad i amgylchedd dysgu ffisegol sy'n ffafriol i amrywiaeth o ddulliau addysgu a dysgu.
  8. Gall asesiad gynnwys ystod o ddulliau ond rhaid iddo gynnwys cyfweiliad unigol.
  9. Bydd angen i raglenni cymeradwy gynnwys meini prawf fynediad clir ar gyfer ymgeiswyr sy'n dilyn ystod o lwybrau i addysg uwch. Bydd angen iddynt ddangos bod gofynion mynediad yn ddigon cadarn ar gyfer y lefel astudio academaidd ac ar gyfer y rôl broffesiynol.
  10. Rhaid i raglenni cymeradwy bennu gofynion ar gyfer profiad perthnasol o ofal cymdeithasol nad yw'n llai na 455 awr o ymarfer mewn swyddogaeth wirfoddol, ac eithrio mewn amgylchiadau achlysurol ac eithriadol lle gall y profiad fod wedi'i fodloni drwy ffyrdd eraill.
  11. Rhaid i raglen gymeradwy ddangos sut y bydd yn bodloni'i hun fod myfyrwyr wedi cofrestru a rhaid iddi gael systemau i gymryd camau yn erbyn myfyrwyr sy'n methu cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. I gael arweiniad ar ddethol a chofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, gweler *Addasrwydd ar gyfer Gwaith Cymdeithasol, Sicrhau bod myfyrwyr gwaith cymdeithasol yn addas i allu dilyn a pharhau â'u hyfforddiant*. Cyngor Gofal Cymru, 2010.
  12. Gweler y Fframwaith Asesu am arweiniad.
  13. Dylai rhaglenni cymeradwy allu dangos sut y bodlonwyd holl ganlyniadau a gofynion y rhaglen mewn theori ac yn ymarferol erbyn diwedd y rhaglen drwy gyfuniad o ddysgu blaenorol a phresenoldeb ar y rhaglen. Ni ellir eithrio myfyrwyr rhag bodloni unrhyw un o ofynion y rhaglen.